PWYLLGOR PENODI

DYDD GWENER, 2 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, Cunnah, Gavin Hill-John a/ac Weaver |

1 : YMDDIHEURIADAU (OS OES UNRHYW)

Dim ymddiheuriadau

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

3 : CYLCH GORCHWYL

PENDERFYNWYD - Y NODWYD Y CYLCH GORCHWYL FEL A GANLYN:

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

4 : COFNODION.

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

5 : EITHRO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

6 : PENODI PRIF SWYDDOG DIGIDOL.

Cafodd y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Prif Swyddog Digidol ei ailgynnull ar 20 Mehefin 2018 i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd ar 19 a 20 Chwefror 2018.

Nodwyd bod ymgeisydd 10 wedi tynnu yn ôl o'r broses cyn y Ganolfan Asesu.

Cyflwynodd Mandy Pigny, yr Aseswr Arweiniol Allanol, ganfyddiadau'r ar gyfer pob un o'r 9 ymgeisydd yn sgîl ymarferion y Ganolfan Asesu a sgoriwyd yn erbyn cymwyseddau ymddygiadol y rôl. Ystyriodd y pwyllgor, ar sail y meini prawf hanfodol, y canlyniadau asesu a ffurflenni cais gwreiddiol yr ymgeiswyr, ba ymgeiswyr y dylid eu gwahodd i gyfweliad ffurfiol.

PENDERFYNWYD –

1. Gwahodd ymgeiswyr 3,14, 22 a 35 i gyfweliad.

2. Rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am y testun sydd wedi'i ddewis ar gyfer y cyflwyniad ac y caniateir uchafswm o 10 munud ar gyfer hwnnw;

3. Llunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld.

7 : DISWYDDIAD (OS YW'N OFYNNOL)

Nid oedd angen ystyried yr eitem hon.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD GWENER 9 MAWRTH 2018 AT 9:00YB

PENDERFYNWYD - y bydd y Pwyllgor Penodi fel Panel Cyfweld yn ymgynnull arm 9.30 ddydd Gwener 9 Mawrth 2018 yn Ystafell Gynadledda'r Arweinydd.